

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2026

**COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR SAFONNAU A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR -
SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2026 10:00**

Presennol – O Bell

S Maughan – Cadeirydd

JE Evans
P Baker

M Daley
R Lynch

MJ Williams
HJ David

G Thomas

Swyddogion:

Kelly Watson
Oscar Roberts

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau

Gwahoddedigion:

y Cynghorydd John Spanswick
y Cynghorydd Amanda Williams
y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas

Arweinydd y Cyngor
Arweinydd y Grŵp Gwrthblaid Mwyaf
Arweinydd Grŵp y Gynghrair Ddemocrataidd

Croesawyd y Cynghorydd Huw David i'r Pwyllgor, i gymryd lle y Cynghorydd Graham Walter. Diolchwyd iddo yntau am ei flynyddoedd o wasanaeth ar y Pwyllgor Safonau.

200. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	8 Gorffennaf 2026

201. Datganiadau o fuddiant

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2026

Y penderfyniad a wnaed	Derbyniwyd y datganiadau buddiant canlynol:- • Fe wnaeth y Cynghorydd Martin Williams ddatgan buddiant personol yn eitem 4, gan ei fod yn briod ag un o Arweinwyr y Grŵp. • Fe wnaeth y Cynghorydd John Spanswick ddatgan buddiant personol yn eitem 5, gan ei fod yn ymwneud ag achos a nodwyd yn yr adroddiad. • Fe wnaeth y Cynghorydd Huw David ddatgan buddiant personol yn eitem 4, gan ei fod yn aelod o un o'r grwpiau a grybwyllwyd yn yr adroddiad.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	8 Gorffennaf 2026

202. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u>	Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 12/02/2026 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	8 Gorffennaf 2026	

203. Safonau Ymddygiad

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, oedd cyflwyno i'r Pwyllgor Safonau adroddiadau tri Arweinydd Grŵp gwleidyddol y Cyngor yn amlinellu'r ffordd yr oeddent yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o ran safonau ymddygiad uchel. Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch: • Pam mae adrannau o'r adroddiadau heb gael eu llenwi. • Pam nad yw cyfarfodydd rhwng Arweinwyr Grwpiau yn digwydd yn amlach. • Cymorth ychwanegol y gall Arweinwyr Grwpiau ei dderbyn gan y Pwyllgor neu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. • Cynrychiolaeth yn yr adroddiad hwn ar gyfer Aelodau sydd heb grŵp ehangach. • Canllawiau ar gyfathrebu priodol y gellir eu rhoi i Aelodau Etholedig.
------------------------	---

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2026

	• A yw adborth a gesglir o arsylwadau cyfarfodydd yn cael ei rannu gydag Arweinwyr Grwpiau. Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Arweinydd y Cyngor, Arweinydd y Grŵp Gwrthbleidiol Mwyaf, Arweinydd Grŵp y Gynghrair Ddemocrataidd a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol. Cynigiwyd y dylai'r Gwasanaethau Democrataidd hysbysu pob Cynghorydd am yr adroddiadau blynyddol ar Safonau Ymddygiad er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith Aelodau Etholedig a'u hannog i gyfranogi. Codwyd pryderon ynghylch gorfodi mesurau rhyddid barn a chamwybodaeth / gwybodaeth gamarweiniol, a basiwyd yn flaenorol yn y Cyngor Llawn, a'r ffordd yr oedd modd iddynt dorri ar draws toriadau Cod Ymddygiad posibl ac ymchwiliadau. Ystyriwyd y mesurau hyn hefyd yng nghyd-destun ymgeiswyr posibl ar gyfer swyddi Aelodau Etholedig yn ogystal â Chynghorwyr ffurfiol CBSP. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor wedi ystyried yr adroddiadau ac wedi rhoi adborth i Arweinwyr y Grŵp. Cytunwyd i gyfathrebu drwy e-bost at bob Aelod Etholedig yn mynegi diolchgarwch am awyrgylch mwy cytûn yn y Cyngor yn ogystal â newidiadau eraill sydd wedi digwydd, ynghyd â gobeithion y Pwyllgor y bydd yr awyrgylch hwn yn cael ei gynnal ar ôl etholiadau'r flwyddyn nesaf, yn ogystal ag atgoffa Aelodau am ganlyniadau a sancsiynau posibl am beidio â chydymffurfio â safonau.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	8 Gorffennaf 2026

204. Adroddiad Blynyddol

Y penderfyniad a wnaed	Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol, oedd i'r Pwyllgor gymeradwyo ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025/26 i'w adrodd i'r Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch:
------------------------	---

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2026

	• Pam nad yw cyfarfodydd CBSP wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad. • Cymariaethau rhwng niferoedd eleni a'r blynyddoedd blaenorol. • Cynnydd ar y camau gweithredu yr argymhellodd CBSP eu cymryd a chanran y rhain sydd wedi cael eu cwblhau. • Dyddiad cyhoeddi adroddiad cyfatebol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. • A ellir anfon llythyr at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn mynegi siom CBSP ynghylch oedi gyda'r adroddiad. • A allai'r Pwyllgor weld yr argymhellion a roddwyd i CBSP yn y cyfarfod nesaf. • A yw Cynghorwyr sydd o dan sancsiynau wedi ymgymryd â'r hyfforddiant a osodwyd fel rhan o'r sancsiynau hynny. Aeth y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol i'r afael â'r cwestiynau hyn, gan nodi bod cyfathrebu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn parhau i fynd ymlaen o ran casglu cymaint o ddata defnyddiol ag oedd yn bsibl allan o'i adroddiadau. <u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w adrodd i'r Cyngor. Cytunwyd ymhellach i roi manylion i'r Pwyllgor am yr argymhellion a roddwyd i CBSP o Adroddiad Blynyddol blaenorol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cytunwyd hefyd i anfon llythyrau ffurfiol at Gynghorwyr oedd o dan sancsiynau, nad ydynt wedi ymgymryd â'r hyfforddiant a argymhellwyd, yn mynegi siom y Pwyllgor ac yn hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am eu methiant i gydymffurfio.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	8 Gorffennaf 2026

205. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	8 Gorffennaf 2026

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD MERCHER, 8 GORFFENNAF 2026

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:03